

Eitem: 08

Teitl: Adroddiad diweddaru cyllid hyd at ddiwedd mis Hydref 2025

Gweithredu / Action required	Er gwybodaeth
Amseru / Timing	Arferol
Argymhelliaid / Recommendation	Argymhellir bod y Bwrdd yn nodi'r diweddariad cyllid ar gyfer y saith mis hyd at 31 Hydref 2025 a'r rhagolwg blwyddyn lawn ar gyfer 2025/26.
Risg / Risk	Risg i enw da ac ariannol
Cyllid / Finance	Dim yn berthnasol
Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective	I dyfu a gwella fel sefydliad
Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion	Dylai'r fformat adrodd ariannol fod yn hygyrch i bawb er mwyn caniatáu gwell dealltwriaeth o adroddiadau ariannol Llais. Mae ystyriaeth wedi'i rhoi i hyn.
Cyfathrebu / Communications	Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar: Mewnol: ein pobl ☒ Allanol: ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒ Allanol: enw da ein sefydliad ☒
Cymeradwyaeth / Approval/Clearance	Alyson Thomas, Prif Weithredwr
Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous Discussions/Decisions	Arferol
Awdur/Cyflwynwr / Author/Presenting	Katie Holliday, Cyfarwyddwr Cyllid
Dyddiad / Date	Tachwedd 2025

Cefndir / Background

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol Llais ar gyfer y 7 mis hyd at 31 Hydref 2025 ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am gyllideb a rhagolygon 2025/26 gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am ymgysylltu â deiliaid cyllideb.

Dyraniad cyllideb Llywodraeth Cymru 2025/26

Ym mis Mawrth 2025, cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Ariannol 2025/26 Llais. Rhoddodd y cynllun hwn drosolwg cynhwysfawr o'r incwm a'r gwariant a ragwelwyd, y risgiau ariannol allweddol, a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r Cynllun Blynnyddol. Darperir trosolwg o'r gyllideb yn Atodiad A, sy'n amlinellu'r dyraniadau ar y lefel ranbarthol ac ar draws gweithgareddau Cymru Gyfan.

Roedd y cynllun yn seiliedig ar gyllideb 2025/26 a gymeradwywyd gan Senedd Cymru ym mis Chwefror 2025. Ers hynny, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau i'r Tîm Gweithredol y gall y cyllidebau a gymeradwywyd gan y Senedd wasanaethu fel dyraniad adnoddau Llais ar gyfer 2025/26.

Er nad yw'r Llythyr Cynnig Grant ar gyfer 2025/26 wedi dod i law, mae swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion Llais wedi trafod a chytuno ar gynnwys y llythyr drafft. Mae'r llythyr yn cadarnhau'r cyllid ychwanegol o £96,000 i gydnabod effaith y cynnydd yng nghostau yswiriant gwladol cyflogwyr ar gyfer 2025/26 a £36,000 i gydnabod yr amrywiad rhwng dyfarniad cyflog cost byw Agenda ar gyfer Newid 2025/26 a'r modelu a awgrymwyd gan Lywodraeth Cymru.

Manylion / Detail

Diweddariad Cyllid 2025/26

Mae'r Tîm Cyllid wedi gweithio gyda deiliaid cyllidebau i weithredu fframwaith adrodd mewnol newydd, a gynlluniwyd i gryfhau rheolaeth gyllidebol ar draws y sefydliad. Mae'n ofynnol i ddeiliaid cyllidebau raddoli eu cyllidebau yn unol â chynlluniau gweithredol, a fydd yn hwyluso nodi amrywiadau yn gynharach ac yn cefnogi gwneud penderfyniadau amserol a gwybodus.

Lle'r oedd cynlluniau cyflawni manwl ar gael, cafodd cyllidebau eu graddoli i gyd-fynd â'r cyflawni, fodd bynnag oherwydd nifer o swyddi gwag ar draws y sefydliad, nid oedd yn bosibl cwblhau'r ymarfer graddoli cyllidebol yn llawn. Mewn ymateb, cyfarfu'r Cyfarwyddwr a'r Rheolwr Cyllid â phob deiliad cyllideb yn ystod mis Hydref, i adolygu gwariant yn erbyn y gyllideb a chynnal ymarfer ail-ragweld â llaw ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol. Cefnogodd y gwaith hwn ymarfer rhagweld ehangach a'r rhaglen datblygu rheoli cyllidebol barhaus.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn parhau i gefnogi deiliaid cyllidebau i ymgorffori dysgu, gwella rheolaeth ariannol barhaus, a llywio cynllunio ar gyfer 2026/27.

Cynllunio ariannol tymor canolig

Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor, rhaid i unrhyw gynigion ar gyfer swyddi parhaol newydd neu ymrwymadau cytundebol hirdymor gael eu gwrthbwysu gan arbedion rheolaidd neu gynnydd digonol mewn incwm. Mae'r dull hwn yn angenrheidiol er mwyn osgoi'r risg o or-ymrwymo adnoddau y tu hwnt i'r gyllideb sydd ar gael yn y blynyddoedd i ddod.

Mae cynllun ariannol tymor canolig ar gyfer 2026/27 a 2027/28 wedi'i ddatblygu ac mae'n cael ei adolygu gan ddeiliaid cyllideb. Mae'r cynllun hwn yn ymgorffori rhagamcanion cost y flwyddyn gyfredol i gefnogi gwneud penderfyniadau strategol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyngori Cyrff Hyd Fraich (CHB) i fodelu

ar ddyfarnu dyfarniad cyflog cost byw o 2.2% ar gyfer 2026/27. Fodd bynnag, o ystyried bod dyfarniadau cyflog blaenorol ar gyfer Llais wedi rhagori ar y canllawiau cychwynnol (5.5% AfC vs 3.7% a gynghorwyd yn 2024/25 a 3.6% AfC vs 3.0% a gynghorwyd yn 2025/26), mae Llais yn cynnig modelu cynnydd mwy ceidwadol o 3.0% ar gyfer 2026/27. Bwriad hyn yw lliniaru risg, yn enwedig yng ngoleuni chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr, a arhosodd ar 3.8% ym mis Medi 2025 (3.8% ym mis Gorffennaf 2025).

Wrth edrych ymlaen, bydd ein tîm partneriaeth Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn trafodaethau i archwilio mecanweithiau a fydd yn caniatáu i Llais gyflwyno adroddiadau sy'n dangos pwysau cost parhaus. Bydd hyn yn sicrhau y gellir ystyried y pwysau hwn ym mhroses gynllunio cyllideb 2027/28 Llywodraeth Cymru.

Dull cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026/27

Wrth i Lywodraeth Cymru ddechrau blwyddyn etholiad, mae wedi cadarnhau y bydd cyllidebau adrannol yn gyffredinol yn cael eu cynyddu gan ddyraniad trosglwyddo ynghyd â chwyddiant, gyda chronfa o gyllid heb ei ddyrannu yn cael ei chreu ar gyfer y weinyddiaeth nesaf.

Darperir dyddiadau allweddol isod:

- 14 Hydref - Cyllideb ddrafft amlinellol (dyraniadau lefel uchel ar gyfer pob Ysgrifennydd Cabinet)
- 3 Tachwedd - Cyhoeddi cyllideb ddrafft fanwl (llinellau gwariant)
- 20 Ionawr - Cyhoeddir y gyllideb derfynol
- 27 Ionawr – Dadl a phleidlais ar y gyllideb.

O fewn cyllideb ddrafft fanwl Llywodraeth Cymru, cynigiwyd bod cyllideb Llais ar gyfer 2026/27 yn cynyddu 2.02%, o'i gymharu â chyllideb 2025/26, i £8,598,000. Bydd cais cyllideb 2026/27 Llais yn

cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ystod trydydd chwarter y flwyddyn hon, a fydd yn gwerthuso digonolrwydd y gyllideb honno.

Fodd bynnag, dylid nodi bod Llywodraeth Cymru yn wynebu risg sylweddol wrth basio ei chyllideb ar gyfer 2026/27 oherwydd diffyg mwyafrif yn y Senedd ac agosrwydd etholiad Mai 2026. Yn ei hanfod, mae'r gyllideb arfaethedig yn gynllun "busnes fel arfer" 1 flwyddyn, gan drosglwyddo dyraniadau presennol i raddau helaeth gydag ymrwymïadau newydd cyfyngedig. Gan nad oes gan y llywodraeth fwyaf, bydd angen cefnogaeth ehangach o'r tu allan i'r blaid lywodraethol.

Byddai methu â chytuno ar gyllideb yn sbarduno terfyn gwariant dros dro o 75% yn seiliedig ar ddyraniadau 2025/26 i ddechrau, a allai amharu ar wasanaethau cyhoeddus. Er bod tebygolrwydd y senario hwn yn isel, mae'r risg yn parhau i fod yn berthnasol a gallai effeithio ar sicrwydd cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cynllunio gweithredol Llais. Bydd y risg hon yn cael ei hystyried yn weithredol gyda thîm partneriaeth Llywodraeth Cymru i alluogi Llais i baratoi cynlluniau wrth gefn yn unol â hynny.

Cyllideb wrth gefn

Ar 31 Hydref 2025 roedd gan Llais:

- 109 o staff (106 o aelodau staff; 31 Awst 2025), gan gynnwys staff asiantaeth sy'n cyflenwi swyddi gwag ac absenoldeb staff gan gynnwys cyflenwi mamolaeth
- 99.91 o gyfwerth ag amser llawn (FTE) o'i gymharu â sefydliad llawn o 106.44.

Ar ddiwedd mis Hydref 2025, roedd y gyllideb wrth gefn yn £174,000, i fyny o £97,000 ym mis Awst 2025. Mae'r gronfa wrth gefn wedi cynyddu'n bennaf oherwydd cynnwys cyllid ychwanegol o £142,000 gan Lywodraeth Cymru; mae'r gwahaniaeth net oherwydd recriwtio'r Arweinydd Strategol ar gyfer Digidol a TG (dros dro) ac ailbroffilio cyllidebau staff.

Mae nifer o amrywiadau rhwng rhagolwg diwedd blwyddyn Hydref 2025 a'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Bwrdd (Atodiad A). Mae hyn yn bennaf oherwydd swyddi gwag sy'n deillio o'r ymarfer Cynllun Rhyddhau Cynnar Gwirfoddol ac adolygiad a chwblhau rhaglenni gwaith manwl yn dilyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2025.

Fel rhan o reoli cyllideb, mae'r Tîm Gweithredol yn adolygu ac yn cymeradwyo unrhyw drosglwyddiadau o'r gyllideb wrth gefn i feysydd eraill, tra gall deiliaid cyllideb drosglwyddo cyllidebau nad ydynt yn gyllidebau staff o fewn eu dyraniadau eu hunain.

Mae'r Tîm Gweithredol yn parhau i adolygu'r gyllideb wrth gefn i sicrhau bod ei defnydd yn dargedig ac yn effeithiol, gyda ffocws ar gyflawni blaenoriaethau tymor byr o fewn y strategaeth Ddigidol, Data a Thechnoleg. Bydd y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd yn ystyried cynigion ar gyfer defnyddio'r gyllideb wrth gefn y mis nesaf, er mwyn sicrhau bod arian yn cael ei ddyrannu'n briodol.

Symudiadau swyddfa 2025/26

- Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe

Ym mis Mai 2025, cymeradwyodd y Bwrdd dros dro symud swyddfa o Ysbyty Cimla ym Mae Abertawe i Ganolfan Arloesi Bae Baglan (BBIC), yn amodol ar adborth staff, a oedd yn hynod gadarnhaol. Ar ran y Bwrdd, cymeradwyodd y Tîm Gweithredol y symudiad.

Oherwydd cyfres o oediadau yn y trafodaethau prydles, gohiriwyd y symudiad o 22 Medi i 5 Tachwedd. Mae bellach wedi'i gwblhau. Cymeradwywyd trosglwyddiad o £47,500 o'r gyllideb wrth gefn i dalu costau adleoli, gan gynnwys seilwaith TG, dodrefn newydd, a ffioedd cyfreithwyr. Mae'r dyraniad hwn wedi'i ddefnyddio'n llawn.

- Gorllewin Cymru

Mae adleoli o swyddfa Llais Aberdaugleddau i opsiwn cydleoli â Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro yn cael ei ystyried. Os bydd y symudiad hwn yn mynd rhagddo, rhagwelir y bydd £11,000 y flwyddyn yn cael ei arbed.

Cyllideb cyfalaf

Yn ystod 2025/26, cyflwynwyd 4 cais am gyllid cyfalaf i Lywodraeth Cymru:

1. £85,000 i gydnabod asedau Hawl i Ddefnyddio ar estyniad 12 mis o gontract Centerprise (prydles ar gyfer gliniaduron a gyfrifir o dan IFRS16).
2. £23,000 i gydnabod y brydles llungopïo fel ased Hawl i Ddefnyddio dros oes 3 blynedd y contract.
3. £30,000 i gefnogi gwaith gwella prydles yn safleoedd Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, gan gynnwys rhannu swyddfeydd.
4. £50,000 i adeiladu gwefan newydd sy'n diwallu anghenion esblygol y cyhoedd a rhanddeiliaid, sy'n hawdd ei defnyddio, yn hygyrch, ac yn darparu gwybodaeth glir trwy ryngwyneb greddfoll.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nad oes cyllid cyfalaf ar gael ar hyn o bryd i gefnogi ceisiadau 3 a 4, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i gydnabod les. Fodd bynnag, os bydd cyfalaf ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn, efallai y bydd Llais yn gymwys i'w gael. Mae dyfynbrisiau gan gontractwyr yn cael eu cael ac mae dogfen gwmpasu ar gyfer y wefan yn cael ei datblygu. Gellir ystyried unrhyw ofynion ariannu sy'n weddill yn ystod rowndiau cyllidebu Llywodraeth Cymru 2026/27.

Incwm arall

Mae Llais wedi sicrhau cyllid ychwanegol o £173,000 dros 3 blynedd gan Tenovus i ariannu rôl eiriolwr cwynion cancer pwrpasol. Mae'r bartneriaeth hon yn gwella gallu Llais i gefnogi unigolion sydd wedi'u heffeithio gan ganser ledled Cymru. Hyd yn hyn, mae £28,000 wedi'i ofyn a'i dderbyn gan Tenovus i ariannu'r swydd hon a bydd £18,000 ychwanegol yn cael ei ofyn yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Mae'r gwariant hwn wedi'i gynnwys yn y rhagolwg diweddaraf ar gyfer 2025/26, fel y'i hadlewyrchir yn Atodiad 1 a 2.

Dadansoddiad o amrywiadau cyllidebol

Cyfarfu'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r Rheolwr Cyllid â phob deiliad cyllideb ddiwedd mis Hydref i graffu ar wariant yn erbyn y gyllideb a chynnal ymarfer ail-ragolygon diwedd blwyddyn. Mae nifer o danwariannau posibl wedi'u nodi, ac mae deiliaid cyllidebau yn archwilio cyfleoedd i ailddyrannu arian i gefnogi cyflawni eu rhaglenni gwaith.

Cynhelir cyfarfodydd pellach ganol mis Rhagfyr; i annog rhyddhau unrhyw arian heb ei ddyrannu i'r gyllideb wrth gefn. Mae Atodiad 2 yn darparu gwariant manwl hyd at ddiwedd mis Hydref 2025, o'i gymharu â'r gyllideb fesul cam, a chrynhwir y prif amrywiannau isod:

Disgrifiad	Amrywiad gwariant o'i gymharu â'r gyllideb hyd yma
Costau staff	£15,000
Costau staff eraill	£25,000
Costau llety	£11,000
Digidol, data a thechnoleg	£20,000
Rhaglenni penodol	£32,000
Ffioedd proffesiynol	£8,000
Treuliau gweinyddol eraill	£15,000
Cytundebau Lefel	£2,000
Gwasanaeth	
Cyfanswm y tanwariant	£128,000

- Costau staff Tanwariant o £15,000 oherwydd amrywiadau rhwng dyddiadau cychwyn a gadael cyllidebol a gwirioneddol, cynlluniau wrth gefn mamolaeth, a chyfnodau tâl llai ar gyfer absenoldeb salwch staff. Ar hyn o bryd mae 12 swydd yn cael eu llenwi drwy asiantaeth, gan arwain at wahaniaethau cyfnodol ac amrywiadau o'r amcangyfrifon gwreiddiol.
- Costau staff eraill Cyfanswm y tanwariant yn erbyn y gyllideb o £25,000 sy'n cael ei yrru gan danwariant dysgu a datblygu a theithio a chynhaliaeth.

Dyrannwyd cyllideb o £55,000 ar ddechrau'r flwyddyn i gefnogi dysgu a datblygu sefydliadol. Ers recriwtio Rheolwr Pobl a Datblygu Sefydliadol ym mis Gorffennaf 2025, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran nodi anghenion dysgu sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau sefydliadol.

Er bod y gwariant cyfredol £16,000 yn is na'r gyllideb a broffilir, disgwylir i'r cyllid hwn gael ei ddefnyddio'n llawn i gyflawni cynlluniau dysgu ar draws y sefydliad yn ystod weddill y flwyddyn.

Mae gwariant teithio a chynhaliaeth yn parhau i fod yn is na'r gyllideb, gyda chostau cyfredol o tua £9,000 ar draws timau rhanbarthol a Chymru gyfan. Yn wreiddiol, roedd cyllidebau wedi'u rhannu'n gyfartal ar draws y flwyddyn; fodd bynnag, maent bellach yn cael eu hailbroffilio i adlewyrchu gweithgaredd disgwyliedig hyd at ddiwedd y flwyddyn. Bydd hyn yn sicrhau y gellir rhyddhau unrhyw danwariant a'i ailgyfeirio'n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau cyflawni.

- **Costau llety:** Oherwydd oedi annisgwyl wrth adleoli tîm rhanbarthol Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe i Ganolfan Arloesi Bae Baglan, bydd gwaith a oedd fod i gael ei gwblhau ym mis Hydref 2025 yn cael ei gyflawni ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2025.

Nid yw'r gyllideb gysylltiedig o £4,000 wedi'i hailbroffilio ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae arbedion o £3,000 wedi'u gwireddu o fewn cyllideb Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CBSCNPT) yn dilyn symud y tîm allan o Ysbyty Cimla ar 1 Medi 2025, gan adlewyrchu costau rhent a thâl gwasanaeth is.

Ar draws y rhanbarthau, mae nifer o amrywiadau bach hefyd wedi'u nodi, yn bennaf yn ymwneud â digwyddiadau annisgwyl bach a gwariant ynni is.

- **Digidol, data a thechnoleg** Tanwariant o £20,000 yn bennaf oherwydd diwrnodau cymorth rhwydwaith nas defnyddiwyd (£5,000) a chostau trwydded meddalwedd is na'r gyllideb (£11,000).

Bydd adolygiad parhaus o seilwaith digidol Llais yn llywio buddsoddiad pellach yn ystod weddill y flwyddyn. Yn unol â hynny, bydd y gyllideb hon yn parhau yn ei lle ac mae'n debygol iawn y caiff ei chynyddu, gyda throsglwyddiad o'r gronfa wrth gefn, i gefnogi cyflawni'r Strategaeth Data a Thechnoleg Ddigidol.

- **Rhaglenni penodol** Mae cyllideb y rhaglenni penodol yn cefnogi elfennau hyrwyddo ac ymgysylltu'r cynllun blynyddol, gan gynnwys ymgynghoriaeth, llogi lleoliadau, hyrwyddiadau ac argraffu. Ym mis Hydref 2025, adolygodd ac ail-raddiodd timau gyllidebau i gyd-fynd â chynlluniau cyflawni, gan alluogi nodi tanwariant yn gynnar a sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio at weithgareddau blaenoriaeth.

Mae'r amrywiadau cyfredol yn cynnwys tanwariant o £10,000 ar argraffu a £15,000 ar ddeunyddiau hyrwyddo. Bydd tueddiadau gwariant o 2024/25 a 2025/26 yn llywio cyllidebu mwy cywir yn y blynyddoedd i ddod.

- **Ffioedd proffesiynol** Mae'r gyllideb hon yn cynnwys costau angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol a statudol, gan

gynnwys gwasanaethau archwilio, cyfreithiol a chyfieithu. Mae tanwariant o £8,000 oherwydd cyllidebau cyfreithiol a chyfieithu graddol.

- **Treuliau gweinyddol eraill:** Mae'r gyllideb hon yn cynnwys costau gweinyddol megis deunydd ysgrifennu, llungopïo, postio a llogi offer swyddfa.

Er mwyn gwella effeithlonrwydd a lleihau'r baich gweinyddol rhanbarthol, mae contractau prydlesu llungopiwyd wedi'u canoli o dan y Tîm Cyllid. Disgwylir i'r canoli hwn arbed £9,000 yn 2025/26 o'i gymharu â'r llynedd, gydag arbedion prydles a chyfradd clicio barhaus o tua £20,000 y flwyddyn wedi'u rhagweld yn y blynyddoedd i ddod yn erbyn costau hanesyddol.

Rheoli arian parod

Ym mis Ebrill 2025, derbyniodd Llais £382,000 ychwanegol mewn Cymorth Grant i dalu am daliadau a wnaed i gyn-weithwyr o dan Gynllun Rhyddhau Cynnar Gwirfoddol 2024/25 (VERS), yn ogystal â Chymorth Grant 2025/26.

Mae Llais yn derbyn cyllid arian parod yn chwarterol, yn hytrach nag yn fisol a derbyniwyd trydedd gyfran y cyllid ar gyfer 2025/26 ym mis Hydref 2025, gan ddod â chyfanswm y cyllid a dderbyniwyd i £6,580,000. Unwaith y bydd balans arian parod Llais yn gostwng o dan 4% o gyfanswm y Cymorth Grant (£342,000), gofynnir am y gyfran olaf, a ragwelir ar gyfer mis Ionawr 2026.

Crynodeb:

Ar 31 Hydref 2025, mae sefyllfa ariannol Llais yn parhau i fod yn gadarn. Mae cyfanswm y gwariant £128,000 yn is na'r gyllideb, wedi'i yrru gan danwariant ar draws costau staff, llety, Digidol, Data a Thechnoleg, rhaglenni penodol, ffioedd proffesiynol, a threuliau gweinyddol eraill.

Mae'r Tîm Cyllid yn parhau i weithio'n agos gyda deiliaid cyllidebau i sicrhau bod adnoddau wedi'u halinio'n effeithiol â blaenoriaethau cyflawni, gyda rhagolygon parhaus yn cefnogi cynllunio diwedd blwyddyn.

Mae cronfeydd wrth gefn o £174,000 yn darparu hyblygrwydd i reoli risgiau tymor byr, gan gynnwys cyflawni'r rhaglen Ddigidol, Data a Thechnoleg a mentrau strategol eraill. Mae prosiectau gweithredol allweddol, gan gynnwys adleoli swyddfeydd a gofynion rhaglen gyfalaf, yn cael eu rheoli'n rhagweithiol, gyda rhai buddsoddiadau cyfalaf yn aros am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

At ei gilydd, mae Llais ar y trywydd iawn i reoli ei hadnoddau'n effeithiol, cyflawni gweithgareddau cynlluniedig, a chynnal cynaliadwyedd ariannol hyd at 2026/27.

Argymhellion/ Argymhellion

Gofynnir i'r Bwrdd nodi cynnwys yr adroddiad hwn.